



*Tŷr Cwmnïau*  
— er gwybodaeth —

**Fel yr addaswyd gan Ddeddf Cwmnïau 2006**

## **Enwau Busnes**

**GBF3**

**Mai 2009**

**Fersiwn 18**

**BERR**

Yr Adran Busnes,  
Menter a Diwygio Rheoleiddio

Mae'r canllaw hwn ar gael mewn ffurfiau eraill gan gynnwys Braille, print mawr a thâp clywedol. Am fanylion pellach gweler ein gwefan –[www.companieshouse.gov.uk](http://www.companieshouse.gov.uk) neu e-bostiwrch ein Hadran Ymholiadau ar [enquiries@companieshouse.gov.uk](mailto:enquiries@companieshouse.gov.uk) neu ffoniwch ein Canolfan Gysylltu ar 0303 1234 500.

Rhaid bod yn ymwybodol o'r canlynol wrth ddarllen y nodiadau canllaw hyn:

Mae rhai (ond nid y cyfan) o ddarpariaethau Deddf Cwmnïau 2006 wedi dod i rym. Gan hynny, mae rhai o ddarpariaethau Deddf Cwmnïau 1985 yn dal yn berthnasol. Rydym wedi ceisio gwneud yn glir drwy'r holl nodiadau hyn, gymaint â phosib, pa Ddeddf sy'n berthnasol. Os hoffech chi wybod pa ddarpariaethau yn y Deddfau priodol sydd mewn grym, ymwelwch â'n gwefan [www.companieshouse.gov.uk](http://www.companieshouse.gov.uk) Mae dolen ar ein gwefan hefyd i wefan BERR (Yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio) [www.berr.gov.uk/bbf/co-act-2006](http://www.berr.gov.uk/bbf/co-act-2006)lle gallwch chi weld rhagor o wybodaeth. Mae rhai darpariaethau yn y Ddeddf newydd yn amodol ar drefniadau trosiannol. Cyhyd â phosib, eglurwn hyn yn y canllaw presennol a rhown fanylion ar ein gwefan.

Mae un cam olaf yng ngweithrediad Deddf Cwmnïau 2006 sydd wedi ei drefnu ar gyfer Hydref 2009. Byddwn yn diweddarau unrhyw nodiadau canllaw a effeithir gan y gweithrediadau hynny ar y pryd. Efallai yr hoffech chi gadw golwg ar ein gwefan hefyd lle byddwn yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth wrth i'r broses o weithredu barhau, er mwyn ichi gael mynediad at y newyddion diweddaraf.

Hyd fis Hydref 2009, mae'r nodiadau canllaw hyn yn berthnasol i gwmnïau sydd wedi cael eu ffurfio ym Mhrydain Fawr (Cymru, Lloegr a'r Alban). Ar ôl hynny, rhaglennir i'r system ar wahân ar gyfer Gogledd Iwerddon ymdoddi i'r system gyfun ar gyfer y Deyrnas Unedig i gyd.

## Cynnwys

### Cyflwyniad

1. Enwau busnes
2. Rheolau datgelu
3. Gwybodaeth bellach

*Canllaw yn unig yw hyn a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r ddeddfwriaeth berthnasol.*

- Deddf Enwau Busnes 1985
- Deddf Cwmnïau 1985
- Deddf Cwmnïau 2006
- Rheoliadau Cwmnïau (Datgeliadau Masnachu) 2008 – OS 2008/495

### Cyflwyniad

Ni chaiff enwau busnes eu cofnodi o dan y Ddeddf Cwmnïau na chydag unrhyw adran o'r llywodraeth. Ond mae Deddf Enwau Busnes 1985 yn rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol reolaeth arbennig dros yr enw a ddewiswch i'ch busnes a beth mae'n rhaid ichi ei ddweud wrth eraill am berchnogaeth y busnes .

Yn ychwanegol, mae rhai geiriau ac ymadroddion wedi eu rheoli gan ddeddfau eraill a gallai defnyddio un o'r geiriau hyn fod yn dramgwydd troseddol. Mae gwybodaeth bellach wedi ei chynnwys yn y canllaw hwn. Nid yw'n ddatganiad cyflawn o'r gyfraith. Os ydych chi'n ansicr ynglŷn ag unrhyw rai o'r manylion, dylech ddarllen y ddeddf eich hun neu geisio cyngor proffesiynol gan, er enghraifft, gyfreithiwr. Dychmygol yw unrhyw enwau busnes sydd wedi eu nodi yn y canllaw hwn.

Mae Deddf Enwau Busnes 1985 yn mynnu bod unrhyw un sy'n cynnal busnes, p'un a fo hwnnw wedi ei gorffori neu beidio:

- yn sicrhau cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol cyn cynnal busnes sy'n defnyddio unrhyw un o'r geiriau sydd wedi eu rhestru yn Atodiadau A a B;
- yn gofalu nad yw defnyddio unrhyw un o'r geiriau sydd wedi eu rhestru yn Atodiad C yn dramgwydd troseddol; a hefyd
- yn trefnu i wybodaeth arbennig fod ar gael i eraill am berchnogaeth y busnes.

O 1 Hydref 2009 ymlaen, caiff Deddf Enwau Busnes 1985 ei disodli gan Ddeddf Cwmnïau 2006 ond bydd y gofynion hyn yn dal mewn grym.

## **Pennod 1 Enwau busnes**

### **1. Beth yw 'enw busnes'?**

Mae enw busnes yn enw a gaiff ei ddefnyddio gan unrhyw berson, partneriaeth neu gwmni at ddibenion cynnal busnes, oni fo yr un fath â'u henw eu hun.

### **2. Pa archwilio dylwn i ei wneud cyn defnyddio enw busnes?**

Peth doeth yw gwirio o dan sawl gwedd i weld a yw unrhyw fusnes neu gwmni arall eisoes yn defnyddio'r enw. Gallwch:

- wirio'r mynegai enwau cwmni yn [www.companieshouse.gov.uk](http://www.companieshouse.gov.uk)
- ffonio'n Canolfan Cysylltu ar 0303 1234 500;
- gwirio llyfrau ffôn lleol ac unrhyw gylchgronau masnach perthnasol; neu
- gysylltu â chofrestrfa nodau masnach Swyddfa Eiddo Deallusol y DG yn [www.ipo.gov.uk](http://www.ipo.gov.uk), dros y ffôn ar 08459 500 505 neu drwy e-bostio [enquiries@ipo.gov.uk](mailto:enquiries@ipo.gov.uk)

Dylai'r gwirio hwn eich helpu i osgoi unrhyw anhawster cyfreithiol yn y dyfodol ynglŷn â defnyddio enw neilltuol ond hwyrach hefyd y carech geisio cyngor proffesiynol gan gyfreithiwr, yn enwedig os gellid drysu rhwng eich enw dethol chi a nod masnach sy'n bod yn barod.

### **3. I bwy mae'r Ddeddf Enwau Busnes yn gymwys?**

Mae'r Ddeddf yn gymwys i:

- unigolyn sy'n masnachu o dan enw nad yw'n gyfenw iddo/i. Does dim gwahaniaeth a ychwanegir enwau cyntaf neu flaenlythrennau'r unigolyn neu beidio. Felly, byddai'r Ddeddf yn gymwys i Mr JQZ Singh pe bai'n masnachu fel 'Hynafolion Singh' ond nid pe bai'n masnachu fel 'Singh' neu 'JQZ Singh';
- partneriaeth sy'n defnyddio enw busnes neilltuol ac nad yw'n masnachu o dan enwau pawb o'r partneriaid; a hefyd
- i gwmni neu Bartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig sy'n masnachu o dan enw nad yw'n enw corfforaethol iddo, er enghraifft 'XYZ Cyfyngedig' yn masnachu fel 'Hynafolion Llwyd'.

### **4. Oes rheolaeth neu gyfyngu ar enwau busnes a gaiff eu defnyddio?**

Oes. Mae eisiau cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol i enwau sy'n cynnwys geiriau neu ymadroddion a gafodd eu pennu drwy reoliad cyn bod modd eu defnyddio. Mae

hefyd dermau eraill y gall fod yn dramgwydd troseddol i'w defnyddio mewn enw o dan rai amgylchiadau. Gweler y cwestiynau nesaf hyn am ragor o fanylion.

Sylwer y bydd ar fusnes sy'n defnyddio'r geiriau 'bank', 'banker', 'banking' neu 'deposit' angen awdurdodiad yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) os yw'n dilyn gweithgarwch bancio ac yn derbyn adneuon. Cyfeiriwch at eu gwefan [www.fsa.gov.uk](http://www.fsa.gov.uk) am wybodaeth bellach. Os byddwch yn ansicr ynglŷn â defnyddio un o'r geiriau hyn neu am y gweithgarwch busnes arfaethedig, cysylltwch â'r FSA neu ceisiwch gyngor proffesiynol annibynnol.

## 5. Pa enwau sydd angen cymeradwyaeth?

Rhaid i enwau sy'n rhoi'r argraff bod gan y busnes gyswllt â Llywodraeth Ei Mawrhydi, gweinyddiaethau Cymru neu'r Alban, neu awdurdod lleol gael eu cymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol a gall fod angen cefnogaeth yr adran briodol o'r llywodraeth neu gorff perthnasol.

Mae'n ofynnol hefyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gymeradwyo defnyddio enw a allai gamarwain y cyhoedd i gredu bod i'r busnes faint neu statws nad oes cyfiawnhad drosto.

Os bwriadwch chi ddefnyddio unrhyw un o'r geiriau sensitif sydd wedi eu rhestru yn [Atodiadau A a B](#), bydd angen ichi gyflenwi gwybodaeth ategol a fydd yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol gymeradwyo'r enw. Mae deddfwriaeth arall yn rhychwantu'r geiriau a'r ymadroddion sydd wedi eu cynnwys yn [Atodiad C](#) a gallai unrhyw ddefnyddio amhriodol ar eiriau o'r fath mewn enw busnes fod yn dramgwydd troseddol. Gwelir gwybodaeth bellach am eiriau sensitif penodol yng nghwestiynau 6 a 7 isod.

Mae rhestr o eiriau sensitif i'w chael hefyd ar ein gwefan yn [www.companieshouse.gov.uk](http://www.companieshouse.gov.uk) Os byddwch yn ansicr ynglŷn â defnyddio gair penodol mewn enw busnes, gallwch hefyd gysylltu â ni ar 0303 1234 500.

O 1 Hydref 2008 ymlaen, bydd Deddf Cwmnïau 2006 yn cyflwyno darpariaethau newydd sy'n caniatáu i unrhyw berson neu gwmni wrthwynebu enw cwmni ar sail "cofrestru manteisgar" os yw'r enw:

- yr un fath ag enw sy'n gysylltiedig â'r achwynydd ac y mae ganddo/ganddi ewyllys da ynddo; neu
- mor gyffelyb fel y byddai ei ddefnyddio yn y Deyrnas Unedig yn debygol o gamarwain drwy awgrymu cysylltiad rhwng y cwmni a'r achwynydd.

**Sylwer:** na all Tŷ'r Cwmnïau drin unrhyw gwynion ynglŷn â chofrestru manteisgar. Dylai gwrthwynebiadau ac ymholiadau gael eu cyfeirio at y "Tribiwnlys Enwau Cwmni" (a elwir hefyd "y Dyfarnydd") sy'n cael ei weithredu a'i weinyddu gan Swyddfa Eiddo Deallusol y DG. Mae gwybodaeth bellach i'w chael yn [www.ipo.gov.uk/cna](http://www.ipo.gov.uk/cna)

## 6. Pa fath o eiriau ac ymadroddion sy'n sensitif?

Mae'r geiriau canlynol (gweler [Atodiadau A a B](#)) yn awgrymu blaenoriaeth genedlaethol neu ryngwladol:

- **British** - Byddai angen ichi ddangos bod y busnes yn amlwg yn ei faes drwy ddarparu tystiolaeth ategol gan ffynhonnell annibynnol megis adran o'r Llywodraeth, cymdeithas fasnach neu gorff cynrychioli arall. Caiff y flaenoriaeth ei gostwng os nad yw'r enw yn ei gryswth yn disgrifio cynnyrch, ond byddai'n rhaid o hyd ichi ddangos bod eich cwmni'n amlwg ym maes ei weithgarwch hyd yn oed os nad oedd hwnnw wedi ei ddisgrifio yn enw'r busnes.
- **England, English, Scotland, Scottish, Wales, Welsh, Ireland** neu **Irish** - lle bo un o'r geiriau hyn yn ymddangos unrhyw le yn yr enw ond ar y diwedd, mae'r gofynion yn debyg i'r rhai ar gyfer 'British'. Fel arfer, fe gewch gymeradwyaeth i ddefnyddio unrhyw un o'r geiriau hyn ar ddiwedd yr enw os gallwch ddangos fod prif leoliad y busnes yn y wlad dan sylw. Os dymunwch ddefnyddio un o'r geiriau hyn am ei fod yn gyfenw, fe roir cymeradwyaeth ichi fel arfer ar yr amod bod enw'r cwmni'n cynnwys enwau cyntaf neu flaenlythrennau.
- **National** - mae'r meini prawf ar gyfer defnyddio'r gair hwn yr un fath ag ar gyfer 'British'.
- **Great Britain** neu **United Kingdom** - os dymunwch ddefnyddio'r ymadroddion hyn ar ddechrau'r enw, neu os bwriadwch ddefnyddio 'of Great Britain' neu 'of the United Kingdom' ar y diwedd, yna mae'r gofynion yn debyg i'r rhai ar gyfer 'British'. Mae fel arfer yn dderbyniol i ddefnyddio 'Great Britain' neu 'United Kingdom' ar ddiwedd yr enw. Does dim eisiau cymeradwyaeth fel arfer i ddefnyddio'r blaenlythrennau 'GB' neu 'UK' yn enw'ch busnes.
- **European** - ni chymeradwywn enwau sy'n cynnwys y gair hwn os awgrymant, yn ddigyfiawnhad, gyswllt â chyrrff swyddogol yr Undeb Ewropeaidd. Os oes cyswllt, bydd angen ichi ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig o gefnogaeth y corff perthnasol.
- **International** - os dymunwch ddefnyddio'r gair hwn ar ddechrau'r enw, bydd angen ichi ddangos bod masnachu tramor yn cyfrif am ran helaeth o weithgareddau'r busnes. Os dymunwch ei ddefnyddio rywle arall yn yr enw, yna fe rown gymeradwyaeth fel arfer ar yr amod y gallwch ddangos bod y busnes yn gweithredu mewn dwy neu ragor o wledydd tramor.
- **association, federation** neu **society** - os dymunwch chi ddefnyddio un o'r geiriau hyn, dylai'r cyfansoddiad gynnwys cymal dim-dosbarthu-elw. Mae hyn yn darparu bod un bleidlais gan bob aelod ac y dylai unrhyw elw gael ei ddefnyddio i hybu amcanion y busnes ac nid ei dalu i'r aelodau ar ffurf buddrannau.
- **group** – dim ond lle mae sawl busnes o dan berchnogaeth gyffredin y gellir defnyddio'r gair hwn mewn enw busnes. Ond os yw'r enw'n dangos yn glir fod y busnes i hybu buddiannau grŵp o unigolion, er enghraifft grwpiau'n dilyn gweithgareddau cymunedol, yna fe gaiff yr enw ei gymeradwyo fel arfer.
- **assurance, assurer, insurance, insurer, re-assurance, re-assurer, re-insurance** neu **re-insurer** - os oes angen yr enw i fusnes tanysgrifennu, bydd Tŷ'r Cwmnïau fel arfer yn ceisio cyngor pellach. Ond os dymunwch ddefnyddio'r enw i fusnes na fydd yn darparu ond gwasanaethau yswiriant, yna fe ddylech

gynnwys y disgrifiad priodol, er enghraifft `agents', `consultants' neu `services', yn yr enw.

- **institute** neu **institution** - dim ond i'r cyrff hynny sy'n gwneud gwaith ymchwil ar y lefel uchaf neu i gyrff proffesiynol o'r rheng flaen y rhown gymeradwyaeth i ddefnyddio'r geiriau hyn fel arfer. Bydd eisiau ichi ddangos inni fod angen y sefydliad a arfaethir a bod ganddo reoliadau priodol neu safonau archwilio. Bydd eisiau ichi sicrhau tystiolaeth o gefnogaeth cyrff cynrychioliadol ac annibynnol eraill.
- **benevolent, foundation** neu **fund** – ni chymeradwywn enwau sy'n cynnwys unrhyw un o'r geiriau hyn os rhoddant yr argraff, yn ddigyfiawnhad, fod statws elusennol i'r busnes. Os yw'r busnes wedi ei gyfyngu drwy warant a bod ganddo gymal dim-dosbarthu-elw yn y memorandwm cymdeithasiad, yna fe gaiff yr enw ei gymeradwyo fel arfer.
- **charity** neu **charitable** - er mwyn defnyddio'r geiriau hyn, mae'n rhaid i'r busnes ddarparu llythyr oddi wrth y Comisiwn Elusennau sy'n dweud nad oes ganddyn nhw wrthwynebiad. Os na fwriadwch weithredu'n elusen a'ch bod am gynnwys y gair hwn yn enw'r busnes, bydd eisiau ichi egluro wrth y Comisiwn Elusennau pam y mae angen y gair. Ymwelwch â gwefan y Comisiwn Elusennau yn [www.charity-commission.gov.uk](http://www.charity-commission.gov.uk)
- **government** - dim ond os yw Tŷ'r Cwmnïau'n fodlon nad oes cyswllt swyddogol â Llywodraeth Ei Mawrhydi neu unrhyw ran o weinyddiaeth yr Alban neu Gymru, neu unrhyw awdurdod lleol, y rhoir cymeradwyaeth i ddefnyddio'r gair hwn.
- **HSC (Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol) neu HPSS (Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol Personol)** - gall Tŷ'r Cwmnïau ymgynghori â'r DHSSPS (Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus) wrth ystyried cymeradwyo enwau sy'n cynnwys y gair hwn, gan y gallai roi camargraff i gleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd yn ehangach bod y busnes â statws cydnabyddedig mewn cysylltiad ag Iechyd a Gofal Cymdeithasol neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol Personol.

## 7. Beth sy'n digwydd os bydd y berchnogaeth yn newid?

Pan newidir perchnogaeth busnes sydd ag enw'n cynnwys gair a gafodd ei bennu, rhaid i'r perchennog newydd sicrhau cymeradwyaeth o hyd, cyn pen 12 mis, i ddefnyddio'r enw. Bydd hyn yn gymwys p'un a gafodd yr enw ei gofrestru'n flaenorol o dan Ddeddf Enwau Busnes 1985, Deddf Cofrestru Enwau Busnes 1916 neu ei gymeradwyo o dan Ddeddf Cwmnïau 1981.

## 8. Sut dylwn i wneud cais am gymeradwyaeth i ddefnyddio enw?

Os hoffech ddefnyddio enw sy'n cynnwys gair neu ymadrodd a restrir yn Atodiad A neu B, bydd angen ichi sicrhau cydsyniad a chefnogaeth ysgrifenedig yr adran briodol o'r llywodraeth neu'r corff perthnasol. Dylech anfon yr wybodaeth hon gyda'ch cais at:

## Ar gyfer busnesau'n gweithredu yng Nghymru neu Loegr

Yr Ysgrifennydd Gwladol  
Cwmnïau Newydd  
Tŷ'r Cwmnïau  
Ffordd y Goron  
Caerdydd  
CF14 3UZ

DX3350 Caerdydd 1

## Ar gyfer busnesau'n gweithredu yn yr Alban

The Secretary of State  
New Companies  
Companies House  
4th Floor  
Edinburgh Quay 2  
139 Fountainbridge  
Edinburgh EH3 9FF

DX ED235 Edinburgh 1  
neu  
LP – 4 Edinburgh 2

### Pob ymholiad teleffon: 0303 1234 500

Dim ond os yw'r wybodaeth a ddarparwch chi yn dangos bod y busnes yn bodloni'r amodau perthnasol adeg eich cais neu'n fuan wedyn y rhoir cymeradwyaeth.

Bydd cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol i'r enw wedi ei chyfyngu i ddefnyddio geiriau neu ymadroddion neilltuol. Nid yw cymeradwyaeth o'r fath yn ymestyn i nodau ac amcanion y cwmni.

Os hoffech ddefnyddio unrhyw un o'r geiriau a'r ymadroddion sydd wedi eu rhestru yn [Atodiad C](#) mewn enw busnes, dylech ysgrifennu i'r corff priodol ac ymgynghori â chyfreithiwr. Nid oes gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer i gymeradwyo na gwrthod enwau o'r fath nad ymdrinnir â nhw o dan Ddeddf Enwau Busnes 1985. Sylwer y gallai defnyddio amhriodol ar air sydd wedi ei gynnwys yn Atodiad C fod yn dramgwydd troseddol.

## Pennod 2

### Rheolau datgelu

#### 1. Ydy'r rheolau datgelu'n gymwys i bob busnes?

Os yw Deddf Enwau Busnes 1985 yn gymwys i chi (gweler [pennod 1, cwestiwn 3](#)), yna mae'n rhaid cydymffurfio â'r rheolau datgelu.

Er enghraifft, os bydd Mr W Jones yn masnachu fel 'Popty W Jones', yna bydd y rheolau datgelu a welir yn y Ddeddf Enwau Busnes yn gymwys.

Mae'r rheolau datgelu hefyd yn gymwys i gwmnïau corfforedig sy'n masnachu o dan enw gwahanol, er enghraifft Bwydydd ABC Cyfyngedig fel Bwydydd ABC.

At hyn, mae'n rhaid i gwmnïau corfforedig gydymffurfio â'r rheolau datgelu o dan Ddeddf Cwmnïau 1985. Mae'r rhain yn sôn am beth mae'n rhaid ei nodi ar ddeunydd ysgrifennu, dogfennau, y man archwilio a gwefannau. Mae Rheoliadau Cwmnïau (Datgeliadau Masnachu) 2008 (Offeryn Statudol 2008/495) yn cyflwyno newidiadau

pellach o 1 Hydref 2008 ymlaen. Fe welir y rheolau hyn wedi eu hegluro'n llawn yn ein canllaw '[Ffurio Cwmnïau](#)' yn [www.companieshouse.gov.uk](http://www.companieshouse.gov.uk)

## **2. Pa fanylion y mae'n rhaid eu datgelu ynglŷn â busnes?**

Bydd angen ichi ddatgelu:

- yr enw corfforaethol (os yw'r busnes yn defnyddio enw masnachu gwahanol); neu
- enw pob partner; neu
- enw'r person unigol; ac
- ar gyfer pob person a enwir, cyfeiriad lle gellir anfon dogfennau.

## **3. Ble mae'n rhaid dangos yr wybodaeth hon?**

Bydd angen ichi ddangos yr wybodaeth yn glir:

- ymhobman lle byddwch yn dilyn eich busnes ac yn delio â chwsmeriaid neu gyflenwyr;
- ar bob llythyr busnes;
- gwefannau;
- ar bob archeb ysgrifenedig am gyflenwi nwyddau neu wasanaethau;
- ar bob anfoneb a derbynneb;
- ar bob cais ysgrifenedig am dalu dyledion busnes.

Mae [Atodiad D](#) yn nodi rhai enghreifftiau o ffyrdd y gallwch chi ddangos yr wybodaeth ar eich deunydd ysgrifennu. Cyhyd ag y bo'r manylion yn 'glir a darllenadwy', gallant fod wedi eu hysgrifennu â llaw neu wedi eu hargraffu.

## **4. Oes rhaid dangos yr enw mewn modd arbennig?**

Cyhyd â'i bod yn hawdd ei gweld a'i darllen, nid yw o bwys sut y dangoswch chi'r wybodaeth. Ar eiddo mawr, hwyrach y bydd angen ichi feddwl yn ofalus am faint yr hysbysiad a lle y caiff ei arddangos er mwyn gwneud yn siŵr fod pawb o'ch cwsmeriaid a'ch cyflenwyr yn ei weld. Cewch godi mwy nag un hysbysiad os dymunwch chi. Rhair enghraifft o hysbysiad yn [Atodiad E](#).

## **5. Oes rhaid rhoi'r wybodaeth i unrhyw un arall?**

Os gofynnir amdanynt, rhaid i'r enwau a'r cyfeiriadau y mae angen eu datgelu gael eu rhoi ar unwaith hefyd, yn ysgrifenedig, i unrhyw un y gwnewch chi fusnes â nhw.

## 6. Beth os oes sawl partner - oes rhaid datgelu'r holl enwau?

Os oes mwy na 20 partner i'r busnes, does dim rhaid ichi nodi enwau'r holl bartneriaid ar eich dogfennau busnes. Ond rhaid ichi nodi cyfeiriad y prif le busnes a dweud bod modd archwilio rhestr lawn o enwau a chyfeiriadau'r partneriaid yno.

## 7. Beth sy'n digwydd os na fydda i'n cydymffurfio â'r gofynion?

Byddwch yn cyflawni tramgwydd troseddol:

- os defnyddiwch chi enw busnes sydd eisiau cymeradwyaeth ymlaen llaw, a chithau heb sicrhau'r gymeradwyaeth honno;
- os na ddatgelwch chi'r manylion busnes a fynnir gan y Ddeddf Enwau Busnes a, lle bo'r rheiny'n briodol, y newidiadau sy'n cael eu gweithredu ar 1 Hydref 2008 ([gweler cwestiwn 1](#)).

Cofiwch: os na threfnwch i fanylion eich busnes fod ar gael, neu os na fyddwch yn eu harddangos, hwyrach na fydd modd ichi orfodi cytundeb a dynnwyd gennych.

## Pennod 3

### Gwybodaeth bellach

#### 1. Ble galla i gael cymorth?

Os hoffech chi wybodaeth bellach am enwau busnes neu'r gofynion datgelu, bwriwch gip ar ein gwefan [www.companieshouse.gov.uk](http://www.companieshouse.gov.uk) neu gysylltu â ni ar 0303 1234 500. Gallech chi hefyd ymgynghori â chyfrifydd neu gyfreithiwr.

#### 2. Ble galla i gael ffurflenni a gwybodaeth ganllaw?

Os ydych chi'n fusnes ac yn ystyried posibilrwydd ffurfio cwmni cyfyngedig, gweler ein canllaw 'Furfio Cwmnïau' yn [www.companieshouse.gov.uk](http://www.companieshouse.gov.uk) Fel arall, gallwch gysylltu â ni drwy ffonio 0303 1234 500. Peth doeth hefyd yw ceisio cyngor cyfrifydd neu gyfreithiwr.

Gellir lawrlwytho ffurflenni yn rhad ac am ddim o'n gwefan ac mae modd eu cael hefyd gan ddogfenwyr cyfreithiol, cyfrifwyr, cyfreithwyr ac asiantiaid ffurfio cwmnïau – cyfeiriadau mewn llyfrau ffôn ar gyfer busnesau.

#### 3. Sut mae anfon gwybodaeth at y Cofrestrydd?

Dim ond os ydych yn gwmni preifat neu gyhoeddus neu'n Bartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (PAC) sy'n defnyddio enw busnes y bydd angen ichi ffeilio gwybodaeth statudol gyda Thŷ'r Cwmnïau. Os ydych yn fusnes a bod angen ichi sicrhau cymeradwyaeth i gael denfyddio enw penodol neu os oes gennych ymholiad cyffredinol, ysgrifennwch at:

Ar gyfer busnesau'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr:	Ar gyfer busnesau'n gweithredu yn yr Alban:
Yr Ysgrifennydd Gwladol Cwmnïau Newydd Tŷ'r Cwmnïau Ffordd y Goron Caerdydd CF14 3UZ  DX33050 Caerdydd 1	The Secreatry of State New Companies Companies House 4th Floor Edinburgh Quay 2 139 Fountainbridge Edinburgh EH3 9FF  DX ED235 Edinburgh 1 neu LP – 4 Edinburgh 2

Ein rhif teleffon ar gyfer pob ymholiad yw 0303 1234 500.

Gellir cyflwyno dogfennau a gohebiaeth i'n swyddfeydd yng Nghaerdydd, Llundain a Chaeredin (gweler y cyfeiriadau ar ddiwedd y canllaw hwn) unrhyw adeg, gan gynnwys y tu allan i oriau swyddfa, gwyliau banc a thros y penwythnos. Dim ond o'n swyddfa yng Nghaerdydd y gellir cael derbynneb y tu allan i oriau swyddfa.

**Sylwer:** Nid yw Tŷ Cwmnïau yn derbyn cyfrifon na dogfennau dros beiriant ffacs.

## ATODIAD A

Bydd arnoch chi angen cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio cyn cael defnyddio unrhyw rai o'r geiriau neu'r ymadroddion sydd wedi eu gosod yn (a), (b) ac (c) (neu eu ffurfiau lluosog neu feddiannol) yn enw'ch busnes. Mae gwybodaeth bellach am rai o'r geiriau hyn wedi ei chynnwys yng [nghwestiwn 6](#).

(a) Geiriau sy'n awgrymu blaenoriaeth genedlaethol neu ryngwladol:

British	International	Scottish
England	Ireland	United Kingdom
English	Irish	Wales
European	National	Welsh
Great Britain	Scotland	

(b) Geiriau sy'n awgrymu blaenoriaeth fusnes neu statws cynrychioliadol:

Association	Council	Institution
Authority	Federation	Society
Board	Institute	
HSC (Health and Social Care)	HPSS (Health and Personal Social Services)	Government

(c) Geiriau sy'n awgrymu amcanion neu swyddogaethau penodol:

Assurance	Friendly society	Post office	Trade union
Assurer	Fund	Reassurance	Trust
Benevolent	Group	Re-assurer	
Charter	Holding	Register	
Chartered	Industrial & provident society	Registered	
Chemist	Insurance	Re-insurance	

Chemistry	Insurer	Re-insurer
Co-operative	Patent	Sheffield
Foundation	Patentee	Stock exchange

## ATODIAD B

Bydd angen cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd i eiriau neu ymadroddion y rhestr ganlynol. Os dymunwch ddefnyddio unrhyw un ohonynt yn enw'ch busnes, bydd eisiau ichi ysgrifennu'n gyntaf i'r corff perthnasol i sicrhau eu cydsyniad a'u cefnogaeth ysgrifenedig i ddefnyddio'r enw. Dylid anfon copi o'r llythyr ategol gyda'ch llythyr yn ceisio cymeradwyaeth i gael defnyddio'r enw.

<b><i>Gair neu ymadrodd</i></b>	<b>Corff perthnasol i gwmnïau'n bwriadu bod â'u swyddfa gofrestredig yng Nghymru neu Loegr</b>	<b>Corff perthnasol i gwmnïau'n bwriadu bod â'u swyddfa gofrestredig yn yr Alban</b>
Charity, Charitable	Head of Status Charity Commission Woodfield House Tangier Taunton TA1 4BL	<i>I gael cydnabyddiaeth fel elusen Albanaid:</i> Inland Revenue FICO (Scotland) Trinity Park House South Trinity Road Edinburgh EH5 3SD
Contact Lens	The Registrar General Optical Council 41 Harley Street London W1N 2DJ	Fel ar gyfer Cymru a Lloegr
Dental, Dentistry	The Registrar General Dental Council 37 Wimpole Street London W1M 8DQ	Fel ar gyfer Cymru a Lloegr

District Nurse, Health Visitor, Midwife, Midwifery, Nurse, Nursing	The Registrar & Chief Executive United Kingdom Central Council for Nursing, Midwifery and Health Visiting 23 Portland Place London W1N 3AF	Fel ar gyfer Cymru a Lloegr
Health Centre	Mike Pattrick SOL COMMERCIAL Office of The Solicitor Department of Health Room 518 New Court 48 Carey Street London WC2A 2LS	Fel ar gyfer Cymru a Lloegr
Health Service	Ian Williams Head of Brand Management Department of Health Skipton House 80 London Road London SE1 6LH	Fel ar gyfer Cymru a Lloegr
NHS (National Health Service)	Mike Pattrick SOL COMMERCIAL Office of the Solicitor Dept of Health, Room 518, New Court 48,Carey Street London WC2A 2LS Tel 0207 412 1225 Ebost:Mike.Pattrick@dwp.gsi.gov.uk	Fel ar gyfer Cymru a Lloegr
Police	Pauline Laybourne Briefing and Honours Team	The Scottish Ministers Police Division

	<p>CRCSG Change and Support Unit  3rd Floor A  Fry Building  2 Marsham Street  London  SW1P 4DF</p>	<p>St Andrews House  Regent Road  Edinburgh EH1 3DG</p>
Polytechnic	<p>Department of Education  and Science  FHE 1B  Sanctuary Buildings  Great Smith Street  Westminster  London SW1P 3BT</p>	<p>Fel ar gyfer Cymru a  Lloegr</p>
Pregnancy, Termination, Abortion	<p>Department of Health  Area 423  Wellington House  133-135 Waterloo Road  London SE1 8UG</p>	<p>Fel ar gyfer Cymru a  Lloegr</p>
Royal, Royale, Royalty, King, Queen, Prince, Princess, Windsor, Duke, His/Her Majesty	<p><i>(Os seiliedig yng Nghymru)</i>  Cynulliad Cenedlaethol Cymru  Adeiladau'r Goron  Parc Cathays  Caerdydd CF10 3NQ</p> <p><i>(Os seiliedig yn Lloegr)</i>  Linda Henshaw  Ministry of Justice Constitutional  Settlement Division  newid cyfeiriad yn effeithiol o 20/10/2008</p>	<p>Douglas Boyd  Protocol Unit  St Andrew's House  Regent Road  Edinburgh  EH1 3DG</p>

	<p>7C-018 (Post Point 7.42)</p> <p>102 Petty France</p> <p>London</p> <p>London</p> <p>SW1H 9AJ</p>	
Special School	<p>Clinton Roche</p> <p>Department for Education and Skills</p> <p>Caxton House</p> <p>6-12 Tothill Street</p> <p>London SW1H 9NA</p>	Fel ar gyfer Cymru a Lloegr
University	<p>Privy Council Office</p> <p>2 Carlton Gardens</p> <p>London SW1Y 5AA</p>	Fel ar gyfer Cymru a Lloegr

## ATODIAD C

Mae geiriau neu ymadroddion arbennig wedi eu rychwantu gan ddeddfwriaeth arall a gallai eu defnyddio fod yn dramgwydd troseddol. Rhestrir rhai o'r rhain isod, ond nid yw'r rhestr yn ddisbyddol ac os bydd gennych chi unrhyw amheuan dylech geisio cyngor pellach. Os dymunwch ddefnyddio unrhyw un o'r enwau neu'r ymadroddion hyn yn enw'ch busnes, hwyrach y carech chi ymgynghori â chyfreithiwr ac ysgrifennu i'r corff priodol i geisio'u cyngor o ran a fyddai defnyddio enw'n dramgwydd troseddol.

<b>Gair neu ymadrodd</b>	<b>Deddfwriaeth berthnasol</b>	<b>Corff perthnasol</b>
Architect	Section 20 Architects Registration Act 1997	The Registrar Architects Registration Board Regulation Department 8 Weymouth Street London W1W 5BU
Credit Union	Credit Union Act 1979	The Public Records Section  Financial Services Authority  25 The North Colonnade  Canary Wharf London E14 5HS
Veterinary Surgeon, Veterinary, Vet	Sections 19/20 Veterinary Surgeons Act 1966	The Registrar Royal College of Veterinary Surgeons 62-64 Horseferry Rd London SW1P 2AF
Solicitor (Scotland)	S.31, Solicitors (Scotland) Act 1980	The Law Society of Scotland  26 Drumsheugh Gardens

		Edinburgh EH3 7YR
Dentist, Dental Surgeon, Dental Practitioner,	Dental Act 1984	The Registrar General Dental Council 37 Wimpole Street London W1M 8DQ
Drug, Druggist, Pharmaceutical, Pharmaceutist, Pharmacist, Pharmacy	Section 78 Medicines Act 1968	The Director of Legal Services The Royal Pharmaceutical Society of Great Britain 1 Lambeth High Street London SE1 7JN  <i>(i gwmniau wedi eu cofrestru yn yr Alban)</i> The Pharmaceutical Society 36 York Place Edinburgh EH13 HU
Olympiad , Olympiads, Olympian, Olympians, Olympic, Olympics, Paralympic, Paralympics,	Olympic Symbol etc. (Protection) Act 1995* (fel y'i diwygiwyd)*  Gallai defnyddio'r geiriau hyn dorri hawliau Cymdeithas Olympaidd Prydain/Cymdeithas Baralympaidd Prydain.  • <i>Hefyd yn diogelu'r symbol</i>	The London Organising Committee of the Olympic Games Limited (LOCOG) 23rd Floor 1 Churchill Place Canary Wharf London E14 5LN

<p>Paralympiad, Paralympiads, Paralympian, Paralympians,</p> <p><i>cyfieithiad o'r rhain neu o eiriau tebyg i'r geiriau wedi eu diogelu</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Olympaidd o bum cylch</i></li> <li>• <i>plethedig a'r arwyddair Olympaidd "Citius Altius Fortius" ("Cynt, Uwch, Cryfach"); symbol Paralympaidd y tri "agitos"; yr arwyddair Paralympaidd "Spirit in Motion"; ac unrhyw beth tebyg iddynt.</i></li> </ul> <p>Yn sgil cais llwyddiannus Llundain am gynnal y Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd yn 2012, mae Deddf Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2006 wedi ei chyflwyno. Mae hon yn rhoi rhagor o hawliau i ddiogelu geiriau, symbolau a marciau Olympaidd sy'n ymwneud â'r Gemau. Yn ychwanegol at y geiriau wedi eu diogelu a amlinellir yn y canllaw hwn, gallai cofrestru enw cwmni sy'n cynnwys geiriau penodol sy'n awgrymu cysylltiad â Gemau Llundain 2012 dorri hawliau The London Organising Committee of the Olympic Games Limited (LOCOG) o dan y Ddeddf hon. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar:</p> <p><a href="http://www.london2012.com/brandprotection">www.london2012.com/brandprotection</a></p>	
<p>Optician, Ophthalmic Optician Dispensing Optician, Enrolled Optician, Registered Optician, Optometrist</p>	<p>Opticians Act 1989</p>	<p>The Registrar</p> <p>General Optical Council 41 Harley Street London W1N 2DJ</p>
<p>Red Cross,</p>	<p>Geneva Convention</p>	<p>Ceisier cyngor</p>

Geneva Cross, Red Crescent, Red Lion and Sun	Act 1957	Tŷ'r Cwmnïau
Anzac	Section 1 Anzac Act 1916	Ceisier cyngor Tŷ'r Cwmnïau
Chiropodist, Dietician, Medical Laboratory, Technician, Occupational Therapist, Orthoptist, Physiotherapist, Radiographer Remedial Gymnast	Professions Supplementary to Medicine Act 1960 os rhagflaenir gan Registered neu State Registered	Mrs Joan Arnott Department of Health HRD HRB Rm 2N35A Quarry House Quarry Hill Leeds LS2 7JE
Chiropractor	Chiropractors Act 1994	The Chief Executive General Chiropractic Council 44 Wicklow Streer London WC1X 9HL
Institute of Laryngology, Institute of Otology, Institute of Urology, Institute of Orthopaedics	University College London Act 1988	<i>Ceisier cyngor</i> University College London Gower Street London WC1E 6BT
Patent Office, Patent Agent	Copyright, Designs and Patents Act	IPPD (Intellectual Property Policy Directorate)

	1988	Ystafell 3B38, Concept House  -Swyddfa Eiddo Deallusol y DG  Cardiff Road  Casnewydd NP10 8QQ
Building Society	Building Society Act 1986	<i>Ceisier cyngor</i>  Building Societies Commission  Victoria House  30-40 Kingsway  London WC2B 6ES
<p>Siambr Fusnes/Siambrau Busnes</p> <p>Siambr Fasnach/Siambrau Masnach</p> <p>Siambr(au) Masnach a Diwydiant</p> <p>Siambr(au) Masnach, Hyfforddiant a Menter</p> <p>Siambr Fenter/Siambrau Menter</p> <p>Siambr Ddiwydiant/Siambrau Diwydiant</p> <p>Siambr(au) Hyfforddiant</p> <p>Siambr(au) Hyfforddiant a Menter</p> <p><i>neu fersiynau Saesneg y geiriau hyn</i></p>	Company and Business Names (Chamber of Commerce etc.) Act 1999	Mae canllaw ar gael gan Dŷ'r Cwmnïau

<p>The Victoria University of Manchester, University of Manchester Institute of Science and Technology, UMIST, Manchester University</p>	<p>Gwaherddir i bawb ond Prifysgol Manceinion gan “University of Manchester Act 2004”</p>	
<p>Athrofa Feddygaeth Prifysgol Cymru, Ysgol Feddygaeth Genedlaethol Cymru  neu’r Saesneg cyfatebol</p>	<p>Gwaherddir i bawb ond Prifysgol Cymru gan “University of Wales, Cardiff Act 2004”</p>	

## ATODIAD D

Does dim rheolau ynglŷn â sut dylech chi ddangos yr wybodaeth angenrheidiol ar ddeunydd ysgrifennu'ch busnes, ond dyma rai enghreifftiau i'ch helpu:

### 1. Busnes ym meddiant person unigol:

POPTY W.JONES

(Perch: W. Jones)

12 Stryd Fawr

Pont-y-rhyd

Sir Gaernewydd

SA1 2YZ

### 2. Busnes ym meddiant partneriaeth

JONES AC EVANS (TRWSIO CEIR)

(partneriaid: P Jones ac A Evans)

34 Stryd Isaf

Pont-y-rhyd

Sir Gaernewydd

SA2 3WX

### 3. Busnes ym meddiant cwmni:

BWYDYDD ABC

Uned 2

Ystad Fasnachol Newydd

Pont-y-rhyd

Sir Gaernewydd

BA3 4ST

Ar waelod y pennawd llythyr (mae angen y manylion hyn o dan Ddeddf Enwau Busnes 1985 a'r Deddfau Cwmnïau):

BWYDYDD ABC (PRYDAIN FAWR) CYF, cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr

Rhif cofrestru: 1234567

Swyddfa Gofrestredig: 5 Stryd Ganol, Pont-y-rhyd, Sir Gaernewydd SA4 5QR

**COFIWCH:** rhaid i'r hysbysiad hwn gael ei arddangos mewn lle amlwg fel bod modd ei ddarllen yn rhwydd yn yr holl fannau lle byddwch yn dilyn eich busnes ac yn delio â chwsmeriaid neu gyflenwyr.

## ATODIAD E

Unwaith eto, does dim rheolau sy'n llywio'r ffordd y byddwch chi'n dangos enw'ch busnes gydag enw a chyfeiriad y perchennog. Ond efallai y bydd yr enghraifft ganlynol o gymorth.

### MANYLION PERCHNOGAETH

POPTY W JONES

(yn unol â gofynion adran 4 o Ddeddf Enwau Busnes 1985)

William Jones

12 Stryd Fawr

Pont-y-rhyd

Sir Gaernewydd

SA1 2YZ

## **sut i gysylltu â ni**

Canolfan Cysylltu: 0303 123 4500\*  
Mini-com: 029 2038 1245  
[enquiries@companieshouse.gov.uk](mailto:enquiries@companieshouse.gov.uk)  
[www.companieshouse.gov.uk](http://www.companieshouse.gov.uk)

\*At ddibenion hyfforddiant ac ansawdd, gall eich galwad gael ei monitro

### **Caerdydd:**

Tŷ'r Cwmnïau  
Ffordd y Goron, Caerdydd CF14 3UZ  
Ffacs: 029 2038 0900

### **Caeredin:**

Companies House  
4th Floor  
Edinburgh Quay 2  
139 Fountainbridge  
Edinburgh EH3 9FF  
Ffacs: 0131 535 5820

### **Llundain:**

Companies House  
21 Bloomsbury Street, London WC1B 3XD  
Ffacs: 029 2038 0900